


# Ymgynghoriad Cynllun Corfforaethol Adra

## 2025-2030

Diolch yn fawr iawn i bawb gymerodd rhan yn ein hymgynghoriad yn ystod mis Gorffennaf.

Trwy'r ymgynghoriad yma roeddem eisiau clywed barn ein tenantiaid am beth oedd yn bwysig iddyn nhw dros y 5 mlynedd nesaf. Derbyniwyd ymateb ardderchog, gyda 373 yn rhannu eu barn.

Mi oedd yr ymgynghoriad wedi ei rannu i 3 rhan, oedd yn edrych ar Cartrefi, Pobl a'r Cwmni. Fe ofynnwyd i bawb nodi pa mor bwysig oedd gwahanol bethau iddynt - trwy ddefnyddio graddfa 1 i 5, gyda 1 dim yn bwysig o gwbl tra bod 5 yn bwysig iawn.



Dyma oedd yr adborth a dderbyniwyd:

**Rhan 1 - Cartrefi**

- Mae'n bwysig i fi fod fy nghartref yn ynni effeithlon i arbed arian ar wresogi - Sgôr Cyfartalog – 4.73
- Mae angen gwneud atgyweiriadau yn fy nghartref cyn gynted â phosib - Sgôr Cyfartalog – 4.63
- Dylai fy nghartref fod yn ddiogel gyda gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu gwneud ar gyfer nwy a thrydan - Sgôr Cyfartalog – 4.63
- Mae angen i fy nghartref fod yn fforddiadwy, gyda rhent a thaliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian - Sgôr Cyfartalog – 4.83

**Rhan 2 - Pobl**

- Mwy o gyfleoedd i fi a fy nheulu ddysgu sgiliau newydd a dod o hyd i waith - Sgôr Cyfartalog – 3.53
- Mwy o gyngor ariannol ar gyllidebu, cael gafael ar grantiau a budd-daliadau, a lleihau biliau am wasanaethau - Sgôr Cyfartalog – 4.11
- Cymdogaeth a chymuned ddiogel, heb ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel - Sgôr Cyfartalog – 4.79
- Mwy o help i wella iechyd corfforol a meddyliol - Sgôr Cyfartalog – 4.19

**Rhan 3 - Y Cwmni**

- Sut mae Adra yn cyfathrebu gyda chwsmeriaid, gan gynnwys pa mor hawdd ydi cysylltu, ansawdd y gwasanaeth, a rhoi gwybod i fi am waith ar fy nghartref - Sgôr Cyfartalog – 4.37

- Mae cael gwasanaethau wyneb yn wyneb ar gael yn y gymuned yn ddefnyddiol i fi wrth gysylltu efo Adra - Sgôr Cyfartalog – 4.07

- Mae'n bwysig bod Adra yn parhau i adeiladu cartrefi newydd i helpu'r rhai sydd ar restrau aros - Sgôr Cyfartalog – 4.56

- Mae gen i ddiddordeb mewn cael cyfleoedd i weithio efo Adra - Sgôr Cyfartalog – 2.74


- Mae gwybod bod Adra yn gweithio i leihau effaith y cwmni ar yr amgylchedd ac allyriadau carbon yn bwysig i fi - Sgôr Cyfartalog – 4.00



**Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i'n helpu i gynllunio ein Cynllun Corfforaethol nesaf?**

Dyma restr o themau y sylwadau dderbyniwyd:

- Taclusrwydd gardd/gymdogaeth – 8 o sylwadau
- Adeiladu mwy o dai - 13 o sylwadau
- Gwella darparu adnoddau cymunedol – 3 o sylwadau
- Amseroedd aros gwaith trwsio – 20 o sylwadau
- Gwaith heb ei gwblhau – 5 o sylwadau
- Cyfathrebu gwael – 25 o sylwadau
- Materion Lleithder a Llwydni – 7 o sylwadau
- Safon gwael gwaith trwsio – 7 o sylwadau
- Mwy o gefnogaeth iechyd meddwl – 4 o sylwadau
- Ystyriaeth i sefyllfaoedd uniholion – 10 o sylwadau
- Mwy o hyfforddiant staff – 3 o sylwadau
- Ymddygiad gwrth gymdeithasol – 5 o sylwadau
- Dealltdwriaeth gwael gan y ganolfan alwadau – 3 o sylwadau
- Angen mwy/gwell ffyrdd I gysylltu gyda Adra – 6 o sylwadau
- Angen I Adra gadw at ei gair - 12 o sylwadau
- Mwy o wiriadau aro l I gwaith gael ei gwblhau – 4 o sylwadau
- Amser cwblhau gwaith tai gwag – 1 sylw
- Mwy o barcio I breswylwyr – 7 o sylwadau
- Blaenioraethu tai I bobl leol – 3 o sylwadau
- Defnydd mwy effeithiol o adnoddau – 1 sylw
- Gwella ymgysylltiad â thenantiaid – 9 o sylwadau
- Buddsoddi yn yr eiddo presennol – 14 o sylwadau
- Mentrau amgylcheddol fel paneli solar – 9 o sylwadau
- Hawl I brynnu – 5 o sylwadau
- Cefnogaeth yn ardaloedd gwledig – 1 sylw
- Cefnogaeth I'r henoed/anabl – 5 o sylwadau
- Gwerth am arian rent/tal gwasanaeth – 2 o sylwadau
- Cyflwr eiddo wrth symud mewn – 1 sylw
- Hapus gyda Adra – gwneud gwaith da – 16 o sylwadau



Mi fydd yr adborth yma yn cael ei rannu gyda'n Uwch Dim Rheoli a'n Bwrdd i'w ystyried fel rhan o'r broses o greu ein Cynllun Corfforaethol newydd, fydd yn siapio blaenoriaethau Adra am y cyfnod o 2025 i 2030.

Mi oedd pawb oedd yn ymateb yn cael cyfle i ennill gwerth £100 o dalebau siopau a da ni yn falch o gyhoeddi na Danielle Davies o Fangor oedd yn llwyddiannus - llongyfarchiadau!

Diolch yn fawr unwaith eto i bawb gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad – mae eich barn yn bwysig iawn i ni .

